GIG CYMRU
NHS WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Gofal Iechyd Parhaus y GIG ar Gyfer Oedolion yng Nghymru

## Eich paratoi ar gyfer Cyfarfod Cymhwysedd GIP

Mehefin 2014

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 1 4734 1504 1
ISBN digidol 978 1 4734 1503 4
© Hawlfraint y Goron 2014
WG22137

Nod y daflen hon yw'ch helpu chi i baratoi ar gyfer cymryd rhan mewn cyfarfod a fydd yn penderfynu a ydych chi neu'ch perthynas yn gymwys i gael Gofal Iechyd Parhaus (GIP). Gelwir hwn yn 'Gyfarfod DST' hefyd. Ystyr DST yw Decision Support Tool – Offeryn Cymorth Penderfynu, ac mae esboniad o hwn yn ddiweddarach yn y daflen.

Dylech fod wedi derbyn Taflen Gwybodaeth i'r Cyhoedd 'Gofal Iechyd Parhaus y GIG ar gyfer Oedolion yng Nghymru' yn egluro beth yw GIP. **Os nad ydych, gofynnwch am un**.

## Yr Asesiad

Mae amrywiaeth o bobl wedi gweithio gyda chi i ddatblygu asesiad o'ch angen. Gallai'r rhain fod wedi cynnwys:

- Meddyg
- Nyrs
- Gweithiwr cymdeithasol
- Therapydd galwedigaethol
- Ffisiotherapydd.

Dylech fod wedi cael cydgysylltydd gofal/gweithiwr gofal proffesiynol arweiniol a fydd yn brif bwynt cyswllt i chi ac yn eich tywys drwy'r broses. **Os nad ydych chi'n gwybod pwy yw'r person, gofynnwch**.

Os ydych chi angen eiriolwr annibynnol i'ch cefnogi chi hefyd, bydd eich cydgysylltydd gofal yn trefnu hyn i chi.

Mae eich cydgysylltydd gofal yn gyfrifol am:

- weithio gyda chi
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi, a
- sicrhau bod yr holl bobl berthnasol wedi cyfrannu at yr asesiad o'ch anghenion.

Ar ôl cwblhau'r holl rannau gwahanol o'r asesiad, bydd eich cydgysylltydd gofal yn trefnu cyfarfod. Byddwch chi a'r tîm sydd wedi gweithio gyda chi ar eich asesiad yn mynd i'r cyfarfod hwn.

Nod y cyfarfod fydd defnyddio'r asesiad cyfan i benderfynu a oes gennych chi 'angen iechyd sylfaenol' ac felly'n gymwys i gael pecyn GIP.

Caiff eich angen iechyd sylfaenol ei asesu drwy roi sylw i bob un o'ch anghenion gofal, gan ystyried pedwar maes allweddol:

1. **Natur** – mae hyn yn disgrifio eich anghenion a'r math o anghenion sydd gennych e.e. corfforol, iechyd meddwl neu seicolegol. Mae hefyd yn disgrifio effeithiau eich anghenion arnoch chi a'r math (ansawdd) o help sydd ei angen arnoch er mwyn rheoli eich anghenion.
2. **Dwysedd** – mae hyn yn disgrifio un neu fwy o anghenion (nifer) a allai fod mor ddifrifol fel bod angen rhywfaint o ofal parhaus.
3. **Cymhlethdod** – mae hyn yn disgrifio sut mae symptomau'n rhyngweithio, gan eu gwneud yn anodd eu rheoli, ac mae angen sgiliau i fonitro'r symptomau, trin y cyflwr a/neu reoli'r gofal.
4. **Natur anrhagweladwy** – mae hyn yn disgrifio i ba raddau mae anghenion unigolyn yn amrywio a pha mor anodd yw hi i reoli'r anghenion hynny. Mae hefyd yn disgrifio lefel y risg i iechyd yr unigolyn os na roddir y gofal iawn yn gyflym.

Mae'r broses GIP wedi'i nodi yn y diagram ar y dudalen nesaf. Os nad ydych chi'n ei deall, neu'n teimlo na ddilynwyd y broses, siaradwch â'ch cydgysylltydd gofal.

## Y Broses GIP

Mae cael eich derbyn i'r ysbyty neu amgylchiadau eraill yn awgrymu y gallai fod angen gofal a chymorth tymor hirach arnoch.

Byddwch yn cael cydgysylltydd gofal penodol a fydd yn goruchwylio'r broses, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ac yn ateb eich cwestiynau.

Mae'n bosibl y cewch eich trosglwyddo i raglen 'cam i lawr' wrth i chi gael eich traed tanoch a chael asesiad i ganfod pa ofal a chymorth sydd eu hangen arnoch.

Bydd eich cydgysylltydd gofal yn gofyn am eich caniatâd ac yn dechrau trefnu'r asesiad. Bydd hyn yn cynnwys nifer o aelodau'r tîm sy'n gofalu amdanoch.

Bydd eich cydgysylltydd gofal yn egluro'r broses i chi ac yn rhoi'r Daflen Gwybodaeth i'r Cyhoedd hon i chi.

Mae'n bosibl y bydd angen i aelodau'r tîm gydweithio â chi i gynnal asesiadau ychwanegol i sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

Bydd eich cydgysylltydd gofal yn eich gwahodd i gyfarfod â'r tîm er mwyn trafod eich anghenion a phenderfynu a ydych yn gymwys i gael gwasanaethau GIP a ariennir. Byddan nhw'n rhoi'r daflen hon i chi. ← **Rydych chi yma**

Ar ôl y cyfarfod gwneir argymhelliad ynghylch a ydych chi'n gymwys i gael GIP ai peidio. Byddwch yn cael eglurhad ysgrifenedig o'r rhesymau am y penderfyniad hwn.

Bydd eich cydgysylltydd gofal yn cysylltu â chi ychydig ddyddiau'n ddiweddarach i drafod beth ddigwyddodd yn y cyfarfod, beth fydd yn digwydd nesaf a beth i'w wneud os byddwch yn anfodlon â'r canlyniad.

Cytunir â chi ar y gwasanaethau fydd eu hangen arnoch a chaiff y trefniadau eu gwneud. Gallwch ddisgwyl i'ch anghenion gael eu hadolygu o fewn 3 mis i'r gwasanaethau gychwyn ac o leiaf unwaith y flwyddyn wedi hynny.

## Paratoi ar gyfer y cyfarfod

Meddyliwch pwy hoffech chi ei gael i'ch cefnogi chi.

Siaradwch â'ch cydgysylltydd gofal a/neu eiriolwr.

Mae llawer o bobl yn canfod nad ydyn nhw'n deall popeth yn llawn, felly peidiwch â bod ofn gofyn cwestiynau ar unrhyw adeg.

Mae'n bwysig bod y sgwrs yn glir a gonest.

Mae'r cyfarfod yn gyfle i chi a'ch perthynas/perthnasau godi materion a phryderon. Mae'n gyfle i chi sicrhau bod yr asesiad yn gywir ac yn deg, a'i fod yn rhoi darlun priodol o'ch anghenion.

## Ble fydd y cyfarfod?

Os ydych chi yn yr ysbyty ar hyn o bryd mae'n debyg y bydd yn digwydd mewn ystafell yn agos at y ward. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddwch chi wedi'ch trosglwyddo i raglen 'cam i lawr' ac y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yno. Mae cyfleuster 'cam i lawr' yn ceisio darparu amgylchedd tawelach na ward ysbyty acíwt, i'ch helpu chi i gael eich traed tanoch tra bod eich anghenion yn cael eu hasesu. Gallai fod yn ysbyty cymuned, yn gyfleuster sydd wedi'i drefnu'n arbennig mewn cartref gofal, neu hyd yn oed yn eich cartref eich hun gyda chymorth dwys, er enghraifft.

Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal mewn amgylchedd tawel lle na fydd neb yn tarfu arnoch a lle bydd eich preifatrwydd yn cael ei barchu.

Os ydych chi'n cael eich asesu gartref, gall y cyfarfod ddigwydd yno os dymunwch a bod lle gennych chi. Fel arall, gellir cynnal y cyfarfod mewn lle addas yn eich meddygfa leol neu glinig arall.

**Siaradwch â'ch cydgysylltydd gofal os ydych chi angen cymorth i gyrraedd yno neu os oes gennych chi bryderon am leoliad y cyfarfod**.

## Pwy fydd yno?

- Chi. Bydd y cyfarfod yn trafod eich anghenion a'ch dyfodol chi; mae'n rhaid i'ch llais chi gael ei glywed. Os nad ydych yn teimlo eich bod yn gallu bod yn bresennol, gofynnwch i'ch teulu neu'ch eiriolwr fynd ar eich rhan.
- Eich teulu neu'ch eiriolwr (os dymunwch).
- Aelodau o'r tîm sydd wedi gweithio gyda chi i gwblhau'r asesiad.

Bydd y cyfarfod yn cael ei gadeirio gan un o'r gweithwyr GIG proffesiynol sy'n darparu'ch gofal. Mae'n rhaid iddo sicrhau:

- Eich bod yn gwybod pwy yw pawb yn yr ystafell.
- Eich bod yn deall beth sy'n cael ei drafod. Os yw'r gweithwyr proffesiynol yn defnyddio iaith neu jargon nad ydych chi'n ei ddeall, peidiwch â bod ofn gofyn iddynt egluro.
- Eich bod chi'n cael amser i gyflwyno eich safbwyntiau.

## Beth yw fy rôl i yn y cyfarfod?

Rydych chi yno i fynegi'ch barn am yr asesiad a'r opsiynau sy'n cael eu trafod. Mae gennych chi berffaith hawl i fod yno ac i fynegi'ch barn.

Gofalwch eich bod yn gofyn cwestiynau am unrhyw beth nad ydych chi'n ei ddeall.

Cymerwch nodiadau er mwyn i chi allu ystyried yr hyn a ddywedwyd. Gallwch ddisgwyl i'ch cydgysylltydd gofal gysylltu â chi 2 i 3 diwrnod ar ôl y cyfarfod i roi cyfle i chi drafod beth a ddigwyddodd.

Os ydych chi'n cynrychioli aelod o'ch teulu, cofiwch y bydd y cyfarfod yn trafod eich perthynas yn fanwl ac yn onest. Gall hyn fod yn brofiad emosiynol i chi.

## Beth fydd yn digwydd yn y cyfarfod?

Bydd y tîm yn edrych ar yr asesiad ac yn penderfynu a oes gennych chi angen iechyd sylfaenol. Mewn geiriau eraill, a yw'ch anghenion yn ddigonol o ran eu:

- natur
- dwysedd
- cymhlethdod
- natur anrhagweladwy

i ddangos eich bod chi'n gymwys i gael gwasanaethau GIP?

Mae gwneud penderfyniad o'r fath yn gallu bod yn gymhleth. Bydd y tîm yn defnyddio'r Offeryn Cymorth Penderfynu (DST) i'w helpu i resymoli ac egluro'r penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod. Mae'r DST yn cynnwys matrics (grid) sy'n graddio anghenion yn y meysydd canlynol:

- Ymddygiad
- Gwybyddiaeth
- Anghenion seicolegol
- Cyfathrebu
- Symudedd
- Maethiad
- Ymataliaeth
- Croen
- Anadlu
- Meddyginiaeth
- Newid cyflyrau ymwybyddiaeth
- Anghenion gofal sylweddol eraill.

Gallwch ddisgwyl derbyn:

- copi o'r matrics
- crynodeb o'r penderfyniad ar gymhwysedd
- esboniad clir o'r rhesymau dros y penderfyniad.

Bydd eich cydgysylltydd gofal yn cysylltu â chi o fewn dyddiau i'r cyfarfod i drafod sut rydych chi'n teimlo am y cyfarfod a'r penderfyniad. Peidiwch â bod ofn dweud os ydych chi'n ansicr neu'n anghyfforddus am unrhyw beth.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl cael cytundeb eich bod chi'n gymwys i gael GIP, bydd y tîm a'ch cydgysylltydd gofal yn gweithio gyda chi i ddatblygu cynllun gofal. Bydd hwn yn mynd i'r afael â'ch holl anghenion ac yn rhoi sylw penodol i sut y bydd eich anghenion yn cael eu diwallu a chan bwy. Bydd hefyd yn ystyried y cymorth sydd ei angen ar y bobl sy'n gofalu amdanoch chi ac yn sicrhau bod y gofal a dderbyniwch yn ddiogel ac yn gynaliadwy.

Yna, bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn trefnu'r gwasanaethau sydd eu hangen. Mae gofyn i'r Bwrdd weithio gyda chi ac ystyried eich dymuniadau a'ch dewisiadau'n ofalus. Fodd bynnag, y Bwrdd Iechyd Lleol fydd â'r penderfyniad terfynol ynghylch ble a sut y byddwch chi'n derbyn y cymorth sydd ei angen arnoch.

Pan fydd eich gwasanaethau GIP ar waith gallwch ddisgwyl adolygiad o'ch anghenion o fewn 3 mis i sicrhau bod popeth yn mynd rhagddo fel y dylai. Wedi hynny, bydd eich anghenion yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn i sicrhau bod y gwasanaethau GIP yn dal i ddiwallu'ch anghenion a'ch bod dal yn gymwys i gael cyllid GIP.

## Pa mor hir fydd y broses?

Ni ddylai'r broses gyfan, o'r adeg y nodir gyntaf eich bod angen asesiad ar gyfer GIP i gytuno ar y gwasanaethau rydych eu hangen, gymryd mwy na chwech i wyth wythnos. Mae hyn yn cynnwys y cyfnod ail-alluogi ac asesu yn y cartref neu gyfleuster 'cam i lawr'.

## Beth yw eich hawliau os ydych chi’n anghytuno â’r penderfyniad?

Mae hawl gennych holi’r Bwrdd Iechyd Lleol i adolygu’r penderfyniad a wnaed am eich cymhwysedd i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG.

Os yw’ch asesiad yn dweud nad ydych yn gymwys i gael GIP ac nad ydych yn cytuno â hyn, gallwch drafod hyn â’r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy’n gofalu amdanoch yn y lle cyntaf. Eich cydgysylltydd gofal, neu’ch eiriolwr os oes gennych chi un, fydd eich pwynt cyswllt cyntaf.

Dylai’r GIG gydweithio’n agos â chi a’r tîm amlddisgyblaethol er mwyn datrys y sefyllfa mewn modd anffurfiol a sicrhau hefyd fod yr holl asesiadau a gweithdrefnau angenrheidiol wedi’u cyflawni’n gywir.

Gallwch ofyn am adolygiad annibynnol o’r penderfyniad os nad ydych yn fodlon â’r isod:

- y drefn a ddilynodd y Bwrdd Iechyd Lleol wrth benderfynu a ydych yn gymwys neu
- sut y cafodd yr ‘angen iechyd sylfaenol’ ei ystyried.

Os yw’r Bwrdd Iechyd Lleol yn cadw at ei benderfyniad gwreiddiol a’ch bod am fynd â’r mater ymhellach, gallwch ofyn am gael cwyno drwy weithdrefn gwyno’r GIG. Os byddwch yn parhau’n anfodlon gallwch gysylltu â’r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd eich Bwrdd Iechyd Lleol yn rhoi rhagor o fanylion i chi.